Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Ionawr 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Betteney, Gwawr Jones, Janet Charlton, Terry Bullock, Meirion Owen, Siân Godbert, Elisabeth Roberts Cynghorydd Sir Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Karen Pugh, Gareth Parry, Jim Boughton.
Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Ragfyr 2014.

Materion yn Codi :
[1] Yr Heddlu
Nid oedd presenoldeb gan yr heddlu

[1.1] Apêl Fferyllfa Boots
Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth y Cynulliad yn cynghori bod Boots Chemists yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio caniatáu gwasanaethau fferyllfa yn y pentref.
Nodwyd llythyrau hefyd gan Mr Marshall Smalley, Mrs Gladys Harrison, Mr John Godbert a'r Meddygon R Mackareth a P Keep yn gwrthwynebu'r apêl.
Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a gohiriwyd y materion i roi cyfle iddynt wneud sylwadau.
Yn dilyn i'r cyfarfod ail ymgynnull, penderfynwyd cefnogi'r feddygfa ym Mhentre' Du. Y clerc i anfon at y Cynulliad yn cadarnhau penderfyniad y Cyngor.

[1.2] Arwyddion/Posteri/Di olwg
Nodwyd ymateb gan Gyngor BS Conwy ac APCE. Cytunodd y Cyng. Marion Betteney geisio manylion trefnydd Ffair Hen Bethau ai anfon ymlaen i'r clerc.

[1.3] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/Cais Cynnal a Chadw
Eglurodd y Cyng. Elisabeth Roberts bod trafodaeth yn parhau a bod gwybodaeth pellach i ddilyn oddiwrth y Rhwydwaith Reilffyrdd.

[1.4] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol
Dywedodd y clerc ei fod yn trefnu i gwrdd gyda Mr Glenn Evans ynglŷn â'r lleoliad mwyaf addas.

[1.5] Materion Priffyrdd
Wal gyferbyn a gwersyll fferm yr Hendre ar briffordd yr A5. Dywedodd y clerc nad oedd unrhyw wybodaeth pellach wedi dod i law gan yr Asiantaeth Briffyrdd.

[1.6] Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed
Nodwyd yn siomedig nad oedd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg bwerau statudol i ddelio a'r mater, ac yn awgrymu y dylai'r Cyngor gysylltu gyda Chyfarwyddwr Trenau Arriva

[1.7] Difrod/Balconi'r Neuadd Goffa
Dywedodd y clerc bod Mr Gwyn Lloyd wedi cytuno i gael golwg ar y difrod.

[1.8] Tyllau yn y Ffordd
[a] Twll yn y ffordd gyferbyn a HSBC. Dywedodd y clerc bod y Cyngor Sir wed tynnu sylw'r perchennog i'r mater.
[c] Twll gyferbyn ar fynedfa i'r goedwig ger Dol Gethin. Deallwyd bod y Cyngor Sir wedi cytuno i drwsio'r twll.

Y Brîf Agenda
[1.9] Materion Cynllunio
Codi annedd, Llain 4 Parc Trawsafon Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2] Materion Ariannol
[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod Rhagfyr 2014.
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Rhagfyr 2014.
[c] Precept - Rhoddwyd ystyried i'r gwariant ar gyfer 2015/16, penderfynwyd gosod y precept ar £6,000.00

[2.1] Goleuadau Nadolig
Y clerc i geisio amcan gost ar gyfer goleuadau Nadolig ychwanegol yn y pentref.

[2.2] Gwahoddiad Garddwest Palas Bucingham
Nodwyd bod y Cadeirydd Gareth Wynne a gwestai wedi cael gwahoddiad i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yng Ngarddwest Palas Bucingham.

[2.3] Pencampwriaeth y Byd Rhedeg Mynydd
Nodwyd y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn Metws-y-Coed ym mis Medi 2015, ac y bydd Sara Jones a Melissa Davies [Cyngor BS Conwy] yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

[2.4] Ffibr Band Eang o Fewn Sir Conwy
Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth BT yn cynghori bod gwaith yn dechrau ym mis Mehefin 2015 i wella cysylltiad band eang yn Metws-y-Coed, Llanrwst a Dolwyddelan.

Cadeirydd_____